Dysgu, addysgu ac asesu gweithio mewn partneriaeth: Crynodeb

social care
institute for excellence

scie

Dysgu, addysgu ac asesu gweithio mewn partneriaeth: Crynodeb

Cyflwyniad

Comisiynwyd yr Adolygiad Gwybodaeth hwn i ganfod beth a wyddir am addysgu, dysgu ac asesu gweithio mewn partneriaeth mewn addysg ymgymhwyso ar gyfer gwaith cymdeithasol ac i ganfod arferion gorau wrth ddysgu, addysgu ac asesu gweithio mewn partneriaeth. Roedd dwy ran i'r Adolygiad: adolygiad o ymchwil sy'n bodoli'n barod ac arolwg o ymarfer.

Roedd yr adolygiad ymchwil yn cwmpasu dros 100 o astudiaethau, y rhan fwyaf ohonynt o'r DU ac UDA. Roedd yr adolygiad manwl yn cynnwys 13 astudiaeth ac yn cwmpasu meysydd gwaith cymdeithasol yn cynnwys trais domestig, gofal lliniarol, iechyd meddwl a gwasanaethau geriatrig.

Ar gyfer yr arolwg o ymarfer, canfuwyd pedwar cwrs a oedd yn arddangos arferion gorau trwy gyfweliadau ffôn. Cynhaliwyd grwpiau ffocws lle cafodd myfyrwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac addysgwyr eu cyfweld ar wahân.

Cyfyngiadau'r Adolygiad

Oherwydd diffyg data cadarn, cafodd arferion cyfredol eu harchwilio yn hytrach

na'u gwerthuso. Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau'n rhai ansoddol ac yn mesur newidiadau mewn agweddau myfyrwyr yn ystod neu ar ddiwedd eu hastudiaethau. Dim ond dwy o'r astudiaethau oedd yn edrych ar ymarfer hefyd, felly nid oedd modd mesur newidiadau mewn ymarfer. Yn ogystal, nid yw'r llenyddiaeth na'r arolwg ymarfer yn mynd i'r afael â'r her allweddol o sut mae gweithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau nad ydynt am gymryd rhan (mewn meysydd fel iechyd meddwl).

Beth yw ystyr gweithio mewn partneriaeth?

Gellir olrhain datblygiad gweithio mewn partneriaeth ym maes addysg gwaith cymdeithasol yn ôl i'r 1980au. Bu cynnydd y diwylliant prynu a mudiadau hawliau anabledd yn her i'r diwylliant 'cleientiaid' a daeth â gwerthoedd craidd gwaith cymdeithasol – hunanbenderfyniad a grymuso – i'r system addysg, gan hyrwyddo gwasanaethau rhyngbroffesiynol cydweithredol mwy effeithiol.

Mae dryswch am y cysyniad o weithio mewn partneriaeth yn y llenyddiaeth. Bu cryn ddadlau ynglŷn â'r term wrth i rai tiwtoriaid bwysleisio'r gwahaniaethau pŵer cynhenid rhwng gweithwyr cymdeithasol a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw. Roedd eraill yn dadlau bod gweithio mewn partneriaeth yn broses gydweithredol lle mae'r gweithiwr cymdeithasol a'r cleient yn

gweithio fel dau unigolyn cydradd, a'r nod yw gwneud rhywbeth gyda chleientiaid yn hytrach nag ar eu rhan. Mae sawl math o bartneriaeth – er enghraifft, myfyriwr/defnyddiwr; myfyriwr/addysgwr; myfyriwr/myfyriwr - ond y ddau brif fath o bartneriaeth dan sylw yw partneriaethau rhyngbroffesiynol a phartneriaethau rhwng myfyrwyr a defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr. Roedd yr arolwg o ymarfer yn canolbwyntio ar yr olaf o'r ddau ac roedd y llenyddiaeth ymchwil yn tueddu i edrych ar y cyntaf.

Nid oedd gweithio mewn partneriaeth â grwpiau defnyddwyr/sefydliadau proffesiynol yn hytrach nag unigolion yn cael ei drafod yn y llenyddiaeth ymchwil, ac eithrio ym Mhrifysgol Dundee lle mae grwpiau defnyddwyr a chynhalwyr lleol yn cyfrannu'n ffurfiol at y gwaith cynllunio a chyflawni strategol.

Pa ddulliau o weithio mewn partneriaeth a ganfuwyd?

Yn fras, roedd tri dull o weithio mewn partneriaeth mewn addysg; dysgu planedig (*embedded*), dysgu arwahanol a dull cyfunol. Gwelwyd arferion da yn y tri.

Dysgu planedig sy'n cael ei ffafrio gan rai sefydliadau sy'n ystyried bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ymhob agwedd ar waith cymdeithasol. Er enghraifft, mae Prifysgolion South Bank, Salford, Manceinion a Portsmouth yn cynnig graddau gwaith

cymdeithasol a nyrsio ar y cyd lle mae myfyrwyr gwahanol broffesiynau yn astudio gyda'i gilydd trwy gydol y cwrs.

Mae dysgu arwahanol yn cynnwys prosiectau penodol lle mae myfyrwyr yn gweithio gyda grwpiau lleol, gan gael cyfle i weld defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr fel adnodd yn hytrach na 'dioddefwyr'.

Beth yw swyddogaeth defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr wrth weithio mewn partneriaeth?

Yn arbennig, gwelwyd arferion da ym Mhrifysgolion Plymouth a Dundee, lle'r oedd defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o gynllunio a darparu rhaglenni. Gallai defnyddwyr gwasanaethau gymryd rhan mewn wythnosau ymsefydlu, sesiynau addysgu, mewn fideos ac arsylwi ar ac asesu cyfweliadau (ee yn Plymouth) neu chwarae rôl (yn y London Metropolitan University). Gall defnyddwyr gwasanaethau fod yn gyd-hyfforddwyr neu rannu'u profiad. Gellir defnyddio sgyrsiau strwythuredig dan arweiniad hwyluswyr a gall defnyddwyr gwasanaethau asesu adroddiadau myfyrwyr (ee Plymouth).

Beth mae myfyrwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn ei ddysgu trwy weithio mewn partneriaeth?

Amcanion mentrau yn yr ystafell ddosbarth oedd datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o safbwyntiau

defnyddwyr gwasanaethau, cwestiynu eu statws nhw'u hunain, gwrthbrofi stereoteipiau a datblygu sgiliau cyfathrebu, yn enwedig y gallu i 'wrando'n astud' ac empatheiddio. O weld cynhalwyr y tu allan i 'argyfyngau', gall myfyrwyr werthfawrogi eu cryfderau.

Mae defnyddwyr gwasanaethau yn magu mwy o hyder, sgiliau dysgu a hunanhyder a gall cynhalwyr deimlo'n llai unig.

Ym Mhrifysgol Sussex, mae myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd ac mae hyn yn gwella'u gallu i gydweithio. Credir bod grymuso myfyrwyr yn rhoi model iddynt ar gyfer grymuso defnyddwyr gwasanaethau yn eu gwaith. Mae rhywfaint o'r llenyddiaeth yn dadlau bod gweithio mewn partneriaeth fel hyn yn tanseilio hunaniaeth broffesiynol; dywed eraill bod yr hunaniaeth hon yn cael ei haddasu yn hytrach na'i cholli.

Cyfyngiadau ar gyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau

Mae cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau yn y cyd-destun hwn yn gymhleth. Lle nad yw defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn ddigonol yn y gwaith o gynllunio'r cwrs, neu ddim yn cael eu cynnwys am gyfnod digon hir, mae perygl y gallai hyn gael ei weld fel gweithred arwynebol. Mae'n bosib bod defnyddwyr gwasanaethau yn llywio trafodaethau i weddu i'w hanghenion nhw, ac mae angen sicrhau

cydbwysedd rhwng tystiolaeth bersonol a dadansoddiad beirniadol. Yn ogystal, lle caiff defnyddwyr gwasanaethau eu hyfforddi, mae perygl iddynt gael eu proffesiynoli a cholli eu swyddogaeth annibynnol fel defnyddwyr gwasanaethau. Un ffordd o oresgyn hyn yw trwy ddefnyddio fideos, gan osgoi cyfranogiad uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth. Mae tuedd hefyd i gyfranogwyr fod yn gyn-ddefnyddwyr gwasanaethau yn hytrach na phobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd.

Swyddogaeth partneriaethau rhyngbroffesiynol

Dangosir yr angen am bartneriaethau rhyngbroffesiynol gan y gred gyffredin ymysg gweithwyr cymdeithasol bod nyrsys ac ymwelwyr iechyd yn eu deall nhw, ond nad yw hynny'n wir am feddygon, yr heddlu a chyfreithwyr, sef y grwpiau y maent yn lleiaf tebygol o rannu dysgu gyda nhw. Byddai cysylltiad rhyngddisgyblaethol yn ystod hyfforddiant, er enghraifft, rhwng gweithwyr cymdeithasol a meddygon, yn hwyluso gweithio mewn partneriaeth yn y gweithle, ac mae tystiolaeth bod myfyrwyr hŷn sydd wedi cael llai o gysylltiad â phroffesiynau eraill yn fwy amharod i weithio mewn partneriaeth. Roedd rhai mentrau'n canolbwyntio ar gael myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth o broffesiynau eraill a'u seiliau gwybodaeth a gwerthoedd craidd.

Mae'r llenyddiaeth yn pwysleisio'r angen i feithrin dealltwriaeth gyfunol ond doniau

gwahanol, oherwydd gall amwysedd mewn addysg ryngbroffesiynol arwain at ddrwgdeimlad a safbwyntiau'n cael eu gwreiddio'n ddyfnach. Fodd bynnag, prin yw'r mentrau lle mae myfyrwyr o broffesiynau gwahanol yn dysgu gyda'i gilydd trwy gydol y cwrs.

Pa mor effeithiol yw gweithio mewn partneriaeth mewn addysg?

Ychydig iawn o sôn a gafwyd yn y llenyddiaeth am oblygiadau hil, dosbarth, rhywioldeb, crefydd a diwylliant, a dadleuir mai bach iawn fydd y ddealltwriaeth o sut gallant fod yn rhwystr i weithio mewn partneriaeth heb addysgu penodol yn y meysydd hyn.

Oherwydd y diffyg gwaith dilynol hirdymor, ychydig iawn o gasgliadau pendant y gellir eu gwneud. Mae mentrau fel y rhaglenni newydd yn Plymouth a Dundee angen cymorth cadarn gan sefydliadau ac mae angen amser ac adnoddau i sicrhau bod cynnwys defnyddwyr yn y broses asesu yn llwyddiannus. Mae addysg ryngbroffesiynol yn cael ei hysgogi gan agenda bolisi a phartneriaethau defnyddwyr/cynhalwyr gan agenda rymuso ac mae angen gwerthuso pellach i archwilio'r berthynas rhwng amcanion a chanlyniadau a datblygu arferion da. Ai'r nod yw creu math newydd o ymarferydd hyblyg neu a ydym angen, fel y dywedodd un cyfarwyddwr rhaglenni, nid yn unig math gwahanol o weithiwr ond trefn wahanol?

Cyhoeddiadau eraill sydd ar gael gan SCIE

LEARNING AND TEACHING IN SOCIAL WORK EDUCATION: ASSESSMENT

Beth R. Crisp, Mark R. Anderson,
Joan Orme a Pam Green Lister
ISBN 1 904812 00 7
Tachwedd 2003
Cod archebu: KR01

TEACHING, LEARNING AND ASSESSMENT OF LAW IN SOCIAL WORK EDUCATION

Suzy Braye and Michael Preston-Shoot gyda
Lesley-Ann Cull, Robert Johns a Jeremy Roche
ISBN 1 904812 20 1
Ebrill 2005
Cod archebu: KR08

Ewch i www.scie.org.uk i gael holl gyhoeddiadau SCIE

MEHEFIN 2006

Dysgu, addysgu ac asesu gweithio mewn partneriaeth: Crynodeb

Nod yr adolygiad gwybodaeth hwn oedd canfod arferion gorau wrth addysgu, dysgu ac asesu gweithio mewn partneriaeth ym maes addysg ymgymhwyso ar gyfer gwaith cymdeithasol, gwerthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd ac edrych ar sut mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys.
Ni chodir tâl am gyhoeddiadau ac adnoddau SCIE.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn ffurfiau eraill ar gais.

Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth/Social Care Institute for Excellence
Goldings House, 2 Hay's Lane
London SE1 2HB
ffôn 020 7089 6840
ffacs 020 7089 6841
ffôn testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk